CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mai 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau.
Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat ***2 dudalen (uchafswm****).*

Y Cynghorydd: Robert Walsh **Plaid: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Ward: Llai

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:
Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan CBSW):

1. Pwyllgor Cynllunio
2. Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes
3. Y Cyngor Llawn
4. Aelod o Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol
5. Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam
6. Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol (Nad ydynt yn addysgu)
7. Panel Cludiant Ysgol (Apeliadau Llwybrau Peryglus)
8. Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan y Cynghorydd):

1. Cyngor Cymuned Llai (Ward Parc Llai)
2. Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Darland
3. Llywodraethwr Ysgol Gynradd Parc Llai
4. Is-gadeirydd Pwyllgor Cyfeillion Dyfroedd Alun

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth:

1. Cynhyrchu'r newyddlen chwarterol "Llay Focus" sy'n cael ei dosbarthu i'r holl breswylwyr gan eu hysbysu ynglŷn â'r newyddion diweddaraf.
2. Gweithio'n ddyddiol i gynorthwyo preswylwyr gydag amrywiaeth o faterion, yn bennaf yn ymwneud â thai a'r gwasanaethau cymdeithasol.
3. Wedi defnyddio cyllideb amgylcheddol i ailbeintio'r llinellau gwyn ar faes parcio sy'n eiddo i'r cyngor i annog parcio'n gall.
4. Trefnu bod llwybr troed llithrig yn cael ei ail-wynebu yng Nghoedwig Nant y Gaer.
5. Wedi trefnu arolygon cyflymder gyda'r adran Priffyrdd ar hyd Rhodfa Gyntaf oherwydd pryderon y preswylwyr.
6. Wedi trefnu, gyda'r adran Priffyrdd, i beintio arwyddion gwyn "Araf" ar arwyneb Pentre Hill a Lôn y Gegin.

7. Cefnogi'r gostyngiadau terfyn cyflymder a gynlluniwyd ar Ffordd Llai.
8. Wedi ymgymryd ag archwiliadau o oleuadau stryd sydd wedi malu yn y ward, ac adrodd am y rhain i'r adran.
9. Cysylltu â swyddogion y cyngor ynglŷn ag ailenwi strydoedd ym Mharc Cae Derwen, Ffordd Gresffordd.
10. Gweithio gydag Ysgol Darland i drefnu cludiant ysgol ar gyfer disgyblion Llai.
11. Codi pryderon y preswylwyr ynglŷn â Safle 'Foregolf' ar Barc Gwledig Dyfroedd Alun.
12. Cyfarfod yn rheolaidd gyda Rheolwr Swyddfa Ystadau Gwersyllt a Chydlynydd Strydwedd Llai i drafod pryderon lleol.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

1. Trefnu 2 ddigwyddiad codi sbwriel gyda Chadwch Gymru'n Daclus yng Nghoedwig Nant y Gaer.
2. Cysylltu â Phwyllgor Dathlu 50 Mlynedd Prif Bwll Glo Llai i gefnogi eu diwrnod cofio ddydd Gwener 11 Mawrth.
3. Gobeithio cadarnhau Hawl Tramwy Cyhoeddus ar gyfer llwybr troed answyddogol rhwng Ffordd y Glowyr a Lôn Pinfold.
4. Cynlluniau ar waith i leddfu tagfeydd ar Ffordd yr Ysgol drwy drawsnewid hen safle Babanod Llai yn faes parcio dros dro.
5. Cynllun hir dymor i ostwng cyrbau eiddo'r cyngor yn Llai i leddfu tagfeydd ar rai o'r strydoedd.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd:

1. Derbyn hyfforddiant y Pwyllgor Cynllunio o dan arweiniad David Williams, Rheolwr Rheoli Cynllunio.
2. Wedi mynychu sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan y cyngor ynghyd â gweithdai ynglŷn â nifer o destunau yn ystod y flwyddyn.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

1. Cyfarfod gyda fy nghyd-gynghorwyr o Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol ddwywaith y mis.
2. Llofnodi'r papurau "Galw i Mewn" gyda 4 o'm cydweithwyr o'r Democratiaid Rhyddfrydol i atgyfeirio eitem "Dymchwel Hen Safle Ysgol i Ferched Grove Park" i Bwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu, gyda'r bwriad o atgyfeirio hyn yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol i'w ailystyried.
3. Cymryd rôl weithredol yn yr holl bwyllgorau yr wyf yn aelod ohonynt h.y. Cynllunio, Craffu Dysgu Gydol Oes, Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam.
4. Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd a gofyn cwestiynau i'r Aelodau Arweiniol, gan gynnwys un Cwestiwn Aelod ysgrifenedig i Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant.
5. Fel Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Darland, rwy'n goruchwylio Pwyllgor Gweithgor Ariannol yr ysgol sy'n goruchwylio a chynllunio cyllideb yr ysgol.
6. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu (nad wyf yn aelod ohonynt) i gymryd rhan mewn eitemau testunol .
7. Wedi mynychu cyfarfod Panel Polisi Cynllunio i fynegi safbwyntiau/pryderon ynglŷn ag Asesiad Gofodau Agored ac Archwilio a'r Cynllun Datblygu Lleol.
8. Wedi gweithio'n agos gydag Aelod Cynulliad Gogledd Cymru Aled Roberts ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar Llai, gan gynnwys ceisio derbyn Ad-daliadau Dŵr Wyneb ar gyfer rhai preswylwyr.
9. Cynnal "Cymorthfeydd teithiol" o amgylch Llai gydag Aled Roberts AC.

10. Mynychu seremonïau dinasyddiaeth ar gyfer preswylwyr Llai yn Neuadd y Dref.
Llofnod y Cynghorydd: R. O. Walsh **Dyddiad:** 24/06/2016